




HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach

NORTH WALES POLICE
A safer North Wales



Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio 2020 / 21

Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio – 2020 / 21

Mynegai

Datganiad y Cadeirydd

- 1. Trosolwg**
- 2. Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2020/21**
- 3. Archwilio Mewnol**
- 4. Archwilio Allanol**
- 5. Meysydd i'w Hystyried**
- 6. Llywodraethu**
- 7. Rheoli Risg a Rheolaethau**
- 8. Gwerth am Arian**
- 9. Adrodd Ariannol**
- 10. Codi Pryderon**
- 11. Cynllun Ymlaen a Dyddiadau Cyfarfodydd 2021/22**

Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Archwilio – 2020/21

Datganiad y Cadeirydd

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor ('y Cydbwyllgor') Archwilio; 'y CA') sy'n gofalu am weithgarwch am y cyfnod 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021. Yr aelodau o'r CA a wasanaethodd am y flwyddyn o dan adolygiad oedd:-

Enw
Rachel Barber
John Cunliffe
Claire Hodson
Dianne Walker

Hysbysodd Dianne Walker a Claire Hodson ym mis Mehefin 2020 eu bwriad i sefyll lawr o'r CA ar 31 Mawrth 2021, wedi 3 blynedd o wasanaeth. Diolchaf iddyn nhw a holl aelodau'r pwyllgor am eu cyfraniad a'u hymrwymiad cryf drwy gydol y flwyddyn. Dilynwyd proses recriwtio a dethol. Rwyf felly hefyd yn croesawu tri aelod o'r CA o 1 Ebrill 2021.

Mae cylch gwaith y CA yn cynnwys monitro trefniadau llywodraethu, sicrwydd rheolaethau a rheoli risg ac ar gyfer goruchwyllo'r broses o gynhyrchu a chymeradwyo adroddiadau ariannol diwedd blwyddyn a chyfrifon ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru (' HGC ') a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ('SCHTh'). Yn 2020/21 roedd effaith Covid-19 angen ymdriniaeth wahanol i fynd i'r afael a chyfrifoldebau'r Pwyllgor a'r holl bartïon perthnasol sy'n cynorthwyo mewn rhoi sicrwydd i SCHTh, yr Heddlu a'r CA. Gwnaeth bob parti ymateb i'r her hon er mwyn cyflawni'r amcanion a osodwyd cyn y pandemig yn effeithiol ac yn effeithlon. Am hyn, rwyf yn diolch yn ddiffuant.

Yn ystod y flwyddyn cafodd y CA adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol ('TIAA') ar eu rhaglen arolygu y cytunwyd arnynt ac adolygodd gynnydd ar gamau gweithredu a nodwyd yn eu hadroddiadau. Yn ystod 2020/21, nid oedd materion sylweddol a godwyd gan y Cydbwyllgor i'r SCHTh neu Brif Gwnstabl HGC ('PGHGC').

Yn ogystal â dibynnu ar adroddiadau'r archwilwyr allanol, Archwilio Cymru ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon diwedd y flwyddyn ar gyfer 19/20, ystyriodd y Pwyllgor yr holl ddogfennau a dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh a Chyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau Heddlu Gogledd Cymru (' y Swyddogion Cyllid'). Y Swyddogion Cyllid a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn oedd:-

Rôl	Enw
Prif Swyddog Cyllid – CHTh	Kate Jackson
Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau – HGC	Seb Phillips
Pennaeth Cyllid – Dirprwy Swyddog Cyllid	Guto Edwards

Ymhlith yr enghreifftiau o weithgareddau penodol y mae'r CA wedi ymgymryd â hwy i hwyluso proses o nodi, adolygu ac asesu unrhyw faterion o bwys roedd:

- Adolygiad o'r datganiadau ariannol blynyddol, sy'n canolbwyntio'n benodol ar bolisiâu ac arferion cyfrifo. Mae hyn yn cynnwys rhoi pwyslais ar eglurder yr adroddiad naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac addasiadau sylweddol yn deillio o archwiliad adroddiad blynyddol 19/20.
- Derbyn sicrwydd ar strategaeth rheoli'r trysorlys
- Derbyn sicrwydd ar y broses a ymgwymerir ar gyfer datblygu'r adroddiad blynyddol a'r datganiad llywodraethu blynyddol a chynnydd o ran y cynllun gweithredu
- Adolygu'r ymdriniaeth i reoli risg a chyflawni'r gwelliannau i'r ymdriniaeth i reoli risg
- Adolygu cyflawniad y cynllun gweithredu a chanlyniadau'r prosiect Llywodraethu er mwyn cyflawni trefniadau a strwythurau llywodraethu effeithiol, effeithlon a chadarn.
- Adolygu a derbyn sicrwydd ar yr ymdriniaeth i werth am arian a sut y gosodir hyn o fewn gwneud penderfyniadau a gweithredu strategol.
- Derbyn sicrwydd ar statws parodrwydd i fodloni gofynion Cod Rheolaeth Ariannol newydd CIPFA
- Adroddiadau at wraidd y mater i'r Strategaeth Cyrchu TGCh, uwchraddio Rheolaeth, yr ymateb i Covid-19 a Threfniadau Diogelwch Seiber
- Cyflawni o ran cynllun gweithredu Gwerthusiad y CA, yn benodol gwerth am arian.

Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i holl staff cynorthwyol ac uwch swyddogion sydd wedi cynorthwyo'r CA wrth iddo fodloni ei gyfrifoldebau. Rwyf hefyd yn diolch i'r archwilyr allanol a mewnol, y timau o Archwilio Cymru a TIAA yn y drefn honno, am eu hadroddiadau a'u cyfraniadau i'r cyfarfodydd. Mae'r ddeialog barhaus hon wedi cynorthwyo i ddatblygu'r fframweithiau o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru.

Rachel Barber
Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio

Ebrill 2021

1. Trosolwg

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor Archwilio adrodd yn flynyddol i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) a Phrif Gwnstabl HGC yn amlinellu'r gwaith y mae wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn a, lle bo angen, tynnu sylw at unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Mae **Atodiad 1** yn nodi Cylch Gorchwyl y Pwyllgor. Mae Aelodaeth y Cydbwyllgor yn cynnwys aelodau allanol ac annibynnol. Yn ystod y flwyddyn gwnaeth yr Heddlu a SCHTh adolygu cylch gorchwyl y CA yn ei Fwrdd Cyd Lywodraethu ym mis Chwefror 21. Cafwyd mân ddiwygiadau arfaethedig i'r cylch gorchwyl hwn sydd ar hyn o bryd yn disgwyl cymeradwyaeth derfynol yn y fforwm Heddlu a SCHTh priodol. Yn y cyfamser mae'r Cylch Gorchwyl sydd ynghlwm i'r adroddiad hwn yn parhau mewn grym.

Diben y CA yw rhoi cyngor ac argymhelliad annibynnol i'r CHTh a PGHGC ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchfyd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol, a thrwy hynny gynorthwyo i sicrhau fod effeithlonrwydd a threfniadau sicrhau effeithiol ar waith. I'r perwyl hwn, mae'r Cydbwyllgor yn gallu ac mae gofyn iddo oruchwylio a darparu adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risgiau a rheoli SCHTh a'r Heddlu, y broses adrodd ariannol a llywodraethu blynyddol, ac archwilio mewnol ac allanol.

Mae'r CA yn gyfrifol am adolygu'r systemau llywodraethu, rheoli, rheoli risg a sicrwydd yn annibynnol. Mae gweithgarwch y Cydbwyllgor yn cwmpasu holl agenda llywodraethu'r sefydliad, ac nid cyllid yn unig. Mae gan y Pwyllgor ddyletswydd hefyd i fonitro uniondeb y datganiadau ariannol a'r adroddiadau cysylltiedig.

Yn ystod 2020-21 cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn unol â'i amserlen arfaethedig:-

- 30 Gorffennaf 2020
- 5 Hydref 2020
- 10 Rhagfyr 2020
- 30 Mawrth 2021

Ynghyd â'r cyfarfodydd a drefnir lle mae aelodau yn bresennol, yn rhithiol, oni bai am amgylchiadau y gellir eu hesgusodi, cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol er mwyn rhoi mwy o adborth manwl ar yr adroddiad blynyddol a chyfrifon cyn y gymeradwyaeth olaf. Roedd hefyd diwrnod hyfforddiant CA blynyddol i Gymru gyfan a gynhaliwyd yn rhithiol yn y flwyddyn.

Roedd agenda, cofnodion a phapurau ar gael i'r cyhoedd cyn yr holl gyfarfodydd a drefnwyd.

Mae gan yr Archwilwyr Allanol, yr Archwilwyr Mewnol, y Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion Cyllid wahoddiad sefydlog i fynychu pob cyfarfod a gwneud hynny'n rheolaidd. Yn ogystal, gwahoddir swyddogion SCHTh a'r Heddlu i fod yn bresennol fel sy'n briodol i'r agenda. Mae manylion y rhai hynny a wahoddwyd i gyfarfodydd y Pwyllgor wedi'u rhestru yn **Atodiad 2**.

Efallai y bydd Aelodau'r Cydbwyllgor yn cyfarfod â'r Archwilwyr Allanol a Mewnol y tu allan i'r amserlen cyfarfod ffurfiol. Rhoddwyd trefniant ar waith i'r Cydbwyllgor Archwilio gyfarfod â'r archwilwyr cyn pob cyfarfod heb reolwyr na swyddogion yn bresennol.

2. Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2020/21

Drwy gydol 2020/21, cyflwynodd y Cydbwyllgor adroddiad ar natur a chanlyniadau ei waith i'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gan dynnu sylw at unrhyw feysydd y dylid tynnu eu sylw atynt.

Ymhlith rhai o'r themâu allweddol a drafodwyd mewn cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn oedd:

- Goruchwylio cyflawni'r cynllun gweithredu o'r Adolygiad Llywodraethu
- Datblygu'r prosesau Sicrwydd Risg ymhellach gan gynnwys y Datganiad Chwant Risg ac adroddiadau at wraidd y mater
- Yr ymdriniaeth at sicrhau gwerth am arian
- Ymatebolrwydd i Covid-19
- Cymryd rhan wrth ddatblygu'r rhaglen archwilio fewnol, gan gynnwys archwiliadau cydweithredol
- Adolygiad o effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol.

Atodiad 3 yn amlinellu'r rhaglen waith o ran y Cynllun Archwilio Mewnol a gynhaliwyd yn 2020/21 a chanlyniad yr archwiliadau hyn, ynghyd â'r rhestr archwilio arfaethedig ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hyd at fis Mawrth 2024.

Cynhaliwyd adolygiad hunanwerthuso cyflawniad ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y CA rhwng mis Mawrth a mis Mai 2019 ac eto ym mis Mawrth 2020. Crëwyd a chyflawnwyd cynllun gweithredu yn 2020/21. Unwaith eto, cafwyd gwerthusiad ar ddechrau 2021 gyda thri maes wedi'u nodi er mwyn gwella ei gyfraniad. Nodir cynllun gweithredu gyda'r Swyddogion Cyllid yn gynnar yn 2021/22.

3. Archwilio Mewnol

Drwy gydol y flwyddyn, cynorthwyir y CA yn ei waith gan y rhaglen archwilio mewnol sy'n gwerthuso ac yn cyfrannu at y gwaith o wella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli. Mae'r gwaith archwilio mewnol yn darparu archwilio, gwerthuso ac adrodd gwrthrychol ar ddigonolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae pob archwiliad mewnol o fewn y rhaglen flynyddol yn alinio risgiau strategol y Fframwaith Sicrwydd sy'n cefnogi'r ddarpariaeth sicrwydd gwrthrychol yn erbyn rheoli'r risgiau. Mae canfyddiadau allweddol yr archwiliadau mewnol yn cael eu hadrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio gan gynnwys sylwadau ar briodoldeb rheolaethau allweddol mewn perthynas â'r risgiau, cryfder y sicrwydd a ddarperir ar gyfer pob risg yn ogystal ag addasrwydd y gweithredoedd lliniaru risg ychwanegol.

Mae'n ofynnol i'r Cydbwyllgor sicrhau bod swyddogaeth archwilio fewnol effeithiol. Gwneir hyn drwy adolygu a chymeradwyo'r cynlluniau archwilio mewnol a chynlluniau atal twyll sy'n seiliedig ar risg. Yn ystod y cyfnod adrodd, darparwyd y swyddogaeth archwilio fewnol gan yr Asiantaeth Archwilio Fewnol (TIAA) fel rhan o gontract dwy flynedd a ddyfarnwyd ym mis Ebrill 2019, gyda'r opsiwn i ymestyn y cyfnod am ddwy flynedd arall. Mae trefniadau contractau tu hwnt i'r tymor presennol o dan adolygiad ar hyn o bryd.

Mae archwilio mewnol hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynorthwyo'r Prif Weithredwr i sicrhau amgylchfyd rheoli effeithiol. Mae ganddo raglen waith wedi'i diffinio'n glir sy'n cynnwys gwaith cynghori yn ogystal ag archwilio.

Gwnaeth y Cydbwyllgor barhau i oruchwylio a rhoi mewnbwn i ddatblygiad y rhaglen archwilio mewnol flynyddol. Mae'r Cydbwyllgor a rhanddeiliaid eraill, yn ystod 20/21, wedi awgrymu diwygiadau i'r rhaglen sydd wedi'u hymgorffori. Gohiriwyd dau archwiliad yn ystod 19/20, gyda sêl bendith y CA. Cariwyd y dyddiau nas defnyddiwyd ymlaen i 2020/21 a'u defnyddio i gyflawni'r rhaglen.

Ym mis Mawrth 2020 gwnaeth y Cydbwyllgor adolygu a chymeradwyo cynllun strategaeth ac archwilio mewnol blynyddol 2020/21. Am chwarter cyntaf 20/21, oherwydd cyfyngiadau'r coronaferws ar arferion gweithredu, bu gweithgarwch archwilio mewnol cyfyngedig. Adolygodd y CA y cynllun archwilio mewnol ac fe wnaeth gytuno ar y newidiadau a adlewyrchir yn y cynllun i'w gyflawni am weddill y flwyddyn. Cyflawnwyd y cynllun yn amserol. Bydd y dyddiau nas defnyddiwyd yn cael eu cario ymlaen at 21/22. Ar ben hyn, rhoddir olrheiniadwyedd a sicrwydd wedi'i roi i'r CA ar gyfer holl nodiadau briffio cleientiaid sy'n rhoi tryloywder gweithredu a gymerir gan yr Heddlu neu SCHTh.

4. Allanol Archwiliad

Darperir cytundeb archwilio allanol gan Archwilio Cymru fel y penodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Derbyniwyd datganiad annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilydd gan y Cydbwyllgor gan Archwilio Cymru.

Mae canllawiau polisi clir ar waith ynghylch y ddarpariaeth o wasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio gan yr Archwiliwr Allanol. Mae mesurau diogelu ar waith sy'n sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am gwmpas a gwerth gwaith ychwanegol a gomisiynir gan yr Archwilwyr Allanol. Ni wnaed unrhyw waith arall nad oedd yn archwilio gan yr Archwilwyr Allanol o fewn y flwyddyn.

Rhoddodd yr archwilwyr allanol eu barn ddiweddaraf ar eu hagwedd archwilio seiliedig ar risg a'u meysydd allweddol o ffocws yn yr archwiliad diwedd blwyddyn drwy adroddiad diweddariad technegol a chynllunio, gan alluogi'r Cydbwyllgor i ofyn cwestiynau a cheisio cyngor yn ôl yr angen. Roedd y risgiau allweddol a nodwyd a allai effeithio'r datganiadau ariannol yn 2019/20 yn cynnwys Rheolwyr yn diystyru rheolaethau, dyfarniad McCloud ac effaith ar bensiynau a phrydlesi IFRS16, risgiau ar ôl gweithredu.

Mae'r CA wedi adolygu gwaith yr Archwilwyr Allanol ac mae'n fodlon bod y gwasanaeth archwilio allanol o safon ddigon uchel a bod y ffioedd yn briodol ac yn rhesymol. Y ffi archwilio allanol ar gyfer 2020/21 oedd £83,866 ynghyd â TAW.

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr gwnaeth y CA adolygu'r cais gan Archwilio Cymru i newid eu hymdriniaeth i archwilio drwy ddefnyddio dadansoddeg data, wrth ymgymryd ag ymgynghoriad argostau archwilio'r dyfodol. Gwnaeth y CA ofyn am wybodaeth a sicrwydd pellach. Rhoddwyd nodyn briffio drwy gyflwyno sleidiau yng nghyfarfod mis Mawrth. Gwnaeth y Cydbwyllgor adolygu a chymeradwyo cynllun blynyddol 2021/22 Archwilio Cymru. Y ffi archwilio allanol fydd £83,699, sydd ychydig yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Wrth i'r CA baratoi ar gyfer gwaith Archwilio Cymru yn ystod 2021/22, gwnaeth Archwilio Cymru nodi'r risgiau allweddol fel a ganlyn: Risg o Reolwyr yn Diystyru, Effaith Covid-19 a Dyfarniad McCloud.

5. Meysydd i'w Hystyried

Yn ein rôl fel Aelodau'r CA, rydym yn ymgymryd â nifer o weithgareddau y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol a drefnwyd ar faterion sy'n ymwneud â'r Pwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd â'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddogion Ariannol, Aelodau'r Uwch Dîm Rheoli ac Archwilwyr Mewnol ac Allanol a chyfarfodydd pwyllgor penodol sy'n berthnasol i feysydd ffocws arbenigol Aelod fel y'u nodir isod:

Enw	Maes Ffocws
Claire Hodson	Llywodraethu
Rachel Barber	Cadeirydd
John Cunliffe	Systemau TG a Diogelwch Seiber a Risg
Dianne Walker, FCA	Adrodd ariannol

6. Llywodraethu

Derbyniwyd a thrafodwyd drafft cychwynnol y datganiad llywodraethu blynyddol o ran 2019-20 gan y CA yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2020. Gwnaeth aelodau'r CA ac Archwilio Mewnol sylwadau ar y drafft hwn mewn pryd ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'w ymgorffori cyn ei gyflwyno i'r CA yn ei gyfarfod ar 30 Gorffennaf 2020. Derbyniwyd y datganiad llywodraethu blynyddol cyflawn a therfynol gan y CA yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2020. Derbyniwyd a thrafodwyd drafft cychwynnol y datganiad llywodraethu blynyddol o ran Cyfrifon Statudol 2020/21 yn y cyfarfod ar 30 Mawrth 2021.

Gwnaeth y Bwrdd Cyd Lywodraethu gyfarfod yn rheolaidd yn ystod 2020-2021, yn dilyn ei adferiad ym mis Mawrth 2020. Ei ddiben yw ystyried y fframwaith cyd lywodraethu cyffredinol a sicrhau fod y CHTh a'r PG yn cyflawni eu cyfrifoldebau llywodraethu corfforaethol. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys uwch swyddogion SCHTh a'r Heddlu a Phennaeth Archwilio Mewnol. Mae aelodau'r CA wedi mynychu rhai cyfarfodydd o'r bwrdd. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i bob cyfarfod CA ar waith y bwrdd. Nodwyd nifer o argymhellion yn ystod yr Adolygiad Llywodraethu, wrth ddatblygu a diweddarau llywodraethu, a fydd yn cael ei fonitro gan y Cydbwyllgor yn ystod 2020/21. Cwblhawyd yn sylweddol erbyn mis Mawrth 21. Mae adolygiad o effeithlonrwydd y strwythur llywodraethu yn cael ei ymgymryd yn 2021. Adroddir drwy'r Bwrdd Cyd Lywodraethu a rhoddir gwybodaeth wedi hynny i'r CA.

7. Rheoli Risg a Rheolaethau

Enwebwyd aelod o'r CA i gysylltu â'r Rheolwr Risg cyn pob cyfarfod i drafod y broses rheoli risg a gweithgaredd risg yn fanwl. Mae aelodau'r CA yn gallu cael gafael ar holl gofrestrau risg y SCHTh a'r Heddlu cyn eu cyfarfodydd ffurfiol.

Mae'r CA yn canolbwyntio ar y gofrestr risg strategol gyfunol ac yn ceisio sicrwydd ei fod yn rhesymol, yn gynhwysfawr ac yn ddeinamig. Mae hefyd yn gwirio bod y risg weddilliol yn cyd-fynd ag archwaeth risg y ddau sefydliad. Ym mhob cyfarfod o'r CA mae aelodau'n derbyn ac yn adolygu'r diweddariad rheoli risg ar y broses rheoli risgiau sefydliadol. Mae'r adrodd wedi ehangu yn ystod y flwyddyn er mwyn darparu crynoder a mwy o dryloywder i'r gwaith mae'r Heddlu yn ei ymgymryd yn y maes hwn.

Er mwyn cyflawni gwelliannau, cytunwyd gyda'r CA i ychwanegu at y fframwaith risgiau, sicrhau fod adnoddau wedi'u hystyried yn briodol a gosod yr ymdriniaeth at reoli risgiau ymhellach i ddiwylliant y sefydliad. Mae hyn wedi'i fonitro gan yr arweinydd risg a'r Cydbwyllgor yn ystod 2020/21. Mae'r Cydbwyllgor yn fwy sicr ar sut mae'r Heddlu'n rheoli risg ac mae wedi gosod yr ymdriniaeth yn y sefydliad. Yn y flwyddyn eithriadol hon, gan reoli'r sefydliad yn ystod COVID, gwnaeth yr heddlu greu ac adrodd ar gofrestr risg ar wahân ar gyfer COVID wrth reoli'r gofrestr risg 'arferol'. Oedwyd cyflwyno'r fframwaith sicrwydd risg ledled y sefydliad, oherwydd Covid, ond mae wedi symud ymlaen. Anogodd y CA yr Heddlu i gyflwyno chwant risg ffurfiol yn 19/20. Mae hyn wedi'i adolygu a'i ddatblygu yn 2020/21 gyda'r CA a'i aelodau yn rhoi mewnbwn ac yn craffu'r ymdriniaeth a fabwysiadwyd.

Mae adroddiadau at wraidd y mater wedi'u hymgymryd yn ystod y flwyddyn mewn pedwar maes: Strategaeth Reoli a Chyrchu TGCh, yr ymateb i Covid-19 a Seiberddiogelwch.

8. Gwerth am Arian

Mae nodiadau canllaw CIPFA yn nodi mae cyfrifoldeb statudol y Prif Gwnstabl yw sicrhau Gwerth am Arian. Mae'r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol am y cyfrifoldeb hwn. Rôl y CA yw cynorthwyo'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i gyflawni eu cyfrifoldebau. Rôl y CA yw ystyried y trefniadau i sicrhau gwerth am arian ac adolygu sicrwydd ac asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn. Derbyniodd y CA sicrwydd yn ystod y flwyddyn ar sut mae'r cylch cynllunio strategol wrth galon ei brosesau gwerth am arian a chyfansoddiad a defnydd ei fframwaith gwerth am arian. Derbyniodd wybodaeth ar arbedion a chanlyniadau a gyflawnwyd wrth osod gwerth am arian ym mhopeth a wneir.

Ym mis Rhagfyr gwnaeth Archwilio Cymru ddweud 'bod gan y CHTh a'r PG drefniadau priodol mewn lle er mwyn sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn eu defnydd o adnoddau".

9. Adrodd Ariannol

Mae'r CA yn mynd ati mewn ffordd gyfannol i gyflawni ei atebolrwydd mewn perthynas â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol.

Mae enghreifftiau o weithgarwch penodol y mae'r CA wedi ymgymryd â nhw i hwyluso proses o nodi, adolygu ac asesu materion arwyddocaol mewn perthynas â Chyfrifon Statudol 2019/20 yn cynnwys y canlynol:

- Derbyn cyfarwyddiadau gan Swyddogion Cyllid y CHTh a'r Prif Gwnstabl, sydd angen dwyn sylw'r Cydbwyllgor, yn barhaus, at unrhyw newidiadau i'r polisi cyfrifyddu, materion arwyddocaol yn ymwneud ag adroddiadau ariannol, amcangyfrifon a dyfarniadau, a thrafodion arwyddocaol, gan sicrhau bod y cyfrifon blynyddol wedi'u paratoi yn unol â pholisiau cyfrifyddu;
- adolygodd y Cydbwyllgor uniondeb y Datganiadau Ariannol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a chydymffurfiaeth â'r polisi cyfrifyddu ac unrhyw addasiadau arwyddocaol;

- cafodd y Pwyllgor adroddiadau gan y Prif Swyddogion Cyllid yn manylu ar achosion o dorri amodau a hepgor y broses gaffael a sicrwydd ar gydymffurfiaeth â cholledion a phrosesau taliadau arbennig;
- derbyniodd ac adolygodd y Cydbwyllgor yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol drafft i baratoi ar gyfer eu harwyddo ym mis Hydref 2020.
- adolygodd y Cydbwyllgor yr Adroddiad Blynyddol (gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol), y Datganiadau a'r Cyfrifon Ariannol Blynyddol er mwyn darparu gwiriad cysondeb a rhesymoldeb;
- cyflwynodd y Swyddogion Cyllid bapurau manwl i'r Cydbwyllgor ar y broses cyfrifon blynyddol yn ystod y cyfnod adrodd diwedd blwyddyn;
- ystyriodd y Cydbwyllgor adroddiad ISA260 yr archwilydd allanol a barn archwilio heb ei haddasu. Ni thynnwyd sylw at unrhyw wahaniaeth barn gyda'r dyfarniadau rheoli allweddol;
- ystyriodd y Cydbwyllgor farn TIAA mewn perthynas â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu'r sefydliad, a oedd yn darparu Sicrwydd Sylweddol yn gyffredinol.
- Gwnaeth y Cydbwyllgor godi llithriant mewn gwariant a chyflawni prosiectau i'r rheolwyr a sicrhodd bod yr adroddiad naratif yn adlewyrchu'r llithriant hwn yn addas.
- Gwnaeth y Cydbwyllgor argymhellion ar gyflwyniad yr adroddiad er mwyn gwella eglurder. Gwneir gwelliannau pellach ar gyfer adroddiad 20/21.

O'i waith llwyddodd y CA i ddod i'r casgliad:

- bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol yn cynrychioli barn deg a rhesymol am sefyllfa ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl;
- ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i bolisi cyfrifyddu;
- roedd y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â safonau adrodd ariannol;
- adolygwyd meysydd yr oedd angen dyfarniadau sylweddol arnynt wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu;
- ni chafwyd unrhyw drafodion arwyddocaol nac anarferol yn ystod y flwyddyn.

Yng nghyfarfod mis Mawrth 2021 gwnaeth y Cydbwyllgor dderbyn sicrwydd o gynnydd a chydymffurfiaeth â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA. Y flwyddyn gydymffurfio ydy 21/22. Bydd y Cydbwyllgor yn derbyn adroddiadau yn ystod 21/22 a fydd yn rhoi sicrwydd pellach.

10. Codi Pryderon

Nod yr Heddlu yw creu amgylchfyd lle mae staff yn teimlo ei bod yn ddiogel codi a thrafod pryderon a gwendidau yn agored er mwyn gallu sefydlu'r cynlluniau gweithredu priodol ar gyfer ymateb a'u monitro i'w rhoi ar waith. Yn ystod 2020/21, cafodd y CA sicrwydd o ran y system ar gyfer codi pryderon fel rhan o'i amserlen busnes. Bydd hyn yn parhau i 2021/22.

11. Cynllun Ymlaen a Dyddiadau Cyfarfodydd 2021/22

Yn ystod 2021/22 bydd y CA yn cyflawni ei Gylch Gorchwyl ac yn fwy penodol:

- Dilyn ac adolygu'r gweithrediadau olaf o'r cynllun gweithredu adolygu Llywodraethu a chynorthwyo gwelliant pellach
- Bwrw goleuni ar waith y pwyllgor moeseg a datblygu gwaith y Cydbwyllgor er mwyn cynorthwyo'r maes hwn
- Ceisio sicrwydd cydymffurfiaeth gyda'r Cod Rheolaeth Ariannol ac arwain gwelliannau pellach mewn cyflwyniad ariannol er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth
- Parhau i adolygu sut y cyflawnir gwerth am arian
- Cynorthwyo rheolwyr i ddatblygu'r ymdriniaeth hon i risg a gosod hyn i'r sefydliad
- Dilyn sicrwydd ar effeithiolrwydd ei Strwythur Llywodraethu
- Cyflawni'r cynllun gweithredu sy'n tarddu o'i adolygiad effeithiolrwydd hunanwerthuso blynyddol

Mae gan y CA bedwar cyfarfod wedi'i gynllunio yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22:-

- 4 Awst 2021
- 6 Hydref 2021
- 8 Rhagfyr 2021
- Mawrth 2022 (i'w gadarnhau)

Appendix 1 – Terms of Reference

Terms of Reference of the Joint Audit Committee

1. Statement of purpose

- 1.1 The Joint Audit Committee is a key component of the corporate Governance of the Police and Crime Commissioner (PCC) and Chief Constable (CC) for North Wales. It provides an independent and high-level focus on the audit, assurance and reporting arrangements that underpin good governance and financial standards.
- 1.2 The purpose of the Joint Audit Committee is to provide independent advice and recommendation to the PCC and CC on the adequacy of the governance and risk management frameworks, the internal control environment, and financial reporting, thereby helping to ensure efficient and effective assurance arrangements are in place. To this end the Committee is enabled and required to have oversight of, and to provide independent review of, the effectiveness of the Office of the Police and Crime Commissioner's (OPCC) and Force's governance, risk management and control frameworks, the financial reporting and annual governance process, and internal and external audit.
- 1.3 These terms of reference summarise the core functions of the Committee in relation to the OPCC and to the Force and describe the protocols in place to enable it to operate independently, robustly and effectively.

2. Governance, risk and control

- 2.1 The Committee will provide advice and recommendations to the PCC and CC in relation to the following areas:
 - 2.1.1 Review the corporate governance arrangements against the good governance framework, including the ethical framework, and consider the local code of governance.
 - 2.1.2 Review the annual corporate governance statements prior to approval and consider whether they properly reflect the governance, risk and control environment and supporting assurances and identify any actions required for improvement.
 - 2.1.3 Consider the arrangements to secure value for money and review assurances and assessments on the effectiveness of these arrangements.
 - 2.1.4 Consider the framework of assurance and ensure that it adequately addresses the risks and priorities of the OPCC and Force.
 - 2.1.5 Monitor the effective development and operation of risk management, review the risk profile, and monitor the progress of the PCC and CC in addressing risk-related issues reported to them (individual Force operational risks are specifically excluded from the remit of the Joint Audit Committee).
 - 2.1.6 Consider reports on the effectiveness of internal controls and monitor the implementation of agreed actions.
 - 2.1.7 Review arrangements for the assessment of fraud risks and potential harm from fraud and corruption and monitor the effectiveness of the counter fraud strategy, actions and resources.
 - 2.1.8 To review the governance and assurance arrangements for significant partnerships or collaborations.

2.1.9 The PCC nominate the Joint Audit Committee to be responsible for ensuring effective scrutiny of the Treasury Management Strategy and Policies.

3. Internal Audit

- 3.1 The Committee will provide advice and guidance to the PCC and CC in relation to the following areas:
- 3.1.1 Annually review the internal audit charter and resources.
 - 3.1.2 Review the internal audit plan and any proposed revisions to the internal audit plan.
 - 3.1.3 Oversee the appointment and consider the adequacy of the performance of the internal audit service and its independence.
 - 3.1.4 Consider the head of internal audit's annual report and opinion, and a regular summary of the progress of internal audit activity against the audit plan, and the level of assurance it can give over corporate governance arrangements.
 - 3.1.5 To consider the head of internal audit's statement of conformance with the PSIAS and LGAN and the results of the QAIP that support the statement – these will indicate the reliability of the conclusions of internal audit.
 - 3.1.6 Consider summaries of internal audit reports and such detailed reports and the Committee may request from the PCC and Cc, including issues raised or recommendations made by the internal audit service, management response and progress with agreed actions.
 - 3.1.7 Consider a report on the effectiveness of internal audit to support the Annual Governance Statement as required by the Accounts and Audit Regulations (Wales) 2014.
 - 3.1.8 To consider any impairments to independence or objectivity arising from additional roles or responsibilities outside of internal auditing of the head of internal audit. To make recommendations on safeguards to limit such impairments and periodically review their operation.

4. External audit

- 4.1 The Committee will provide advice and recommendations to the PCC and CC in relation to the following areas:
